# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD ARBENNIG Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD GWENER AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | D W Cole | A M Cook |
| J P Curtice | P Downing | P. Lloyd |
| K E Marsh | H M Morris | T H Rees |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| A Gruffydd | Cyfreithiwr |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

6 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr V M Evans a C L Philpott.

7 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

8 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT CYFYNGEDIG, AUDI A4 (HF51 RGX) - MR M BENJAMIN.**

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch y derbyniwyd cais i drwyddedu cerbyd hurio preifat cyfyngedig gan Mr D Benjamin. Audi A4 oedd y cerbyd, rhif cofrestru HF51 RGX a gallai gludo pedwar teithiwr.

Nid oedd y cerbyd yn cydymffurfio â'r meini prawf trwyddedu presennol a nodwyd gan yr awdurdod oherwydd ei oed.

Nododd aelodau yr arolygiadau a'r dogfennau, Adran Trafnidiaeth - Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Arweiniad Arfer Gorau: Mawrth 2010, a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thrwyddedu cerbydau hurio preifat.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddog a Mr Benjamin a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** cais a wnaed gan Mr M Benjamin am drwydded cerbyd hurio preifat mewn perthynas â'r Audi A4, rhif cofrestru HF51 RGX, a'i adnewyddu yn ôl teilyngdod.

9 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT CYFYNGEDIG - ROVER 45 (VA54 KXT) - MR M BENJAMIN.**

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch y derbyniwyd cais i drwyddedu cerbyd hurio preifat cyfyngedig gan Mr M Benjamin. Rover 45, rhif cofrestru VA54 KZT, oedd y cerbyd a gallai gludo pedwar teithiwr.

Nid oedd y cerbyd yn cydymffurfio â'r meini prawf trwyddedu presennol a nodwyd gan yr awdurdod oherwydd ei oed.

Nododd aelodau yr arolygiadau a'r dogfennau, Adran Trafnidiaeth - Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Arweiniad Arfer Gorau: Mawrth 2010, a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thrwyddedu cerbydau hurio preifat.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddog a Mr Benjamin a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** cais a wnaed gan Mr M Benjamin am drwydded cerbyd hurio preifat mewn perthynas â'r Rover 45, rhif cofrestru VA54 KXT, a'i adnewyddu yn ôl teilyngdod.

10 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT CYFYNGEDIG - SKODA OCTAVIA (Y721 RRP) - MR M BENJAMIN.**

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch y derbyniwyd cais i drwyddedu cerbyd hurio preifat cyfyngedig gan Mr M Benjamin. Skoda Octavia, rhif cofrestru Y721 RRP, oedd y cerbyd a gallai gludo pedwar teithiwr.

Nid oedd y cerbyd yn cydymffurfio â'r meini prawf trwyddedu presennol a nodwyd gan yr awdurdod oherwydd ei oed.

Nododd aelodau yr arolygiadau a'r dogfennau, Adran Trafnidiaeth - Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Arweiniad Arfer Gorau: Mawrth 2010, a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thrwyddedu cerbydau hurio preifat.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddog a Mr Benjamin a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** cais a wnaed gan Mr M Benjamin am drwydded cerbyd hurio preifat mewn perthynas â'r Skoda Octavia, rhif cofrestru Y721 RRP, a'i adnewyddu yn ôl teilyngdod.

11 **CAIS AM YR AWDURDOD I GANIATÁU CEISIADAU CERBYDAU Y TU ALLAN I'R MEINI PRAWF OEDRAN PRESENNOL.**

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i Swyddogion yr Is-adran Trwyddedu gael yr awdurdod i ganiatáu ceisiadau cerbydau y tu allan i'r meini prawf oedran presennol.

Nodwyd y cefndir a'r sefyllfa bresennol gan yr aelodau.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

a) Awdurdodi Swyddogion yr Is-adran Trwyddedu i ganiatáu trwyddedu cerbydau mewn perthynas â cheisiadau cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio â meini prawf oedran presennol y cyngor ar gyfer trwyddedu cerbydau, ar yr amod bod y cerbyd yn bodloni'r holl meini prawf cais/trwyddedu perthnasol eraill; a
b) Bod y Cadeirydd yn cwrdd â Cain Swain er mwyn ceisio eglurhad mewn perthynas â gweithdrefnau cerbydau'n torri i lawr wrth gludo plant i'r ysgol ac oddi yno, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.18 am

**CADEIRYDD**